cplll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund

# Cronfa Bensiynau Clwyd

# Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfio

Tachwedd 2022



# Tudalen Cynnwys


Cyflwyniad a Gofynion Cyfreithiol .......... 3

Nodau ac Amcanion .......... 3

Cefndir y Trefniadau Llywodraethu .......... 4

Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd .......... 5

Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd .......... 6

Swyddog Adran 151: Rheolwr Cyllid Corfforaethol .......... 6

Panel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd .......... 7

Pwyllgor Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru .......... 7

Gweithgor Swyddogion Partneriaeth Pensiwn Cymru .......... 8

Bwrdd Pensiwn .......... 9

Hyfforddiant .......... 10

Gwrthdaro Buddiannau .......... 10

Rheoli Risg .......... 11

Safonau'r Gymraeg .......... 12

Monitro Llywodraethu Cronfa Bensiynau Clwyd .......... 12

Risgiau Allweddol .......... 15

Datganiad Cydymffurfio Arfer Orau .......... 16

Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori .......... 16

Rhagor o Wybodaeth .......... 16

Atodiad A: Datganiad Cydymffurfio Trefniadau Llywodraethu Cronfa Bensiynau Clwyd .......... 17

Atodiad B: Rolau a Swyddogaethau Dirprwyedig Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd .......... 24

# Cyflwyniad a Gofynion Cyfreithiol

Cyngor Sir y Fflint yw'r Awdurdod Gweinyddu sy'n gyfrifol am gynnal a rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd ar ran ei budd-ddeiliaid; aelodau'r cynllun a chyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u nodi yn bennaf yn y rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae hyblygrwydd yn cael ei roi i bob Awdurdod Gweinyddu bennu eu trefniadau llywodraethu eu hunain. Serch hynny, mae Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gofyn i bob Awdurdod Gweinyddu baratoi, cyhoeddi a chynnal polisi llywodraethu a datganiad cydymffurfio sy'n nodi a yw'r Awdurdod Gweinyddu yn dirprwyo ei swyddogaethau, neu ran o'i swyddogaethau i bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog o'r awdurdod, ac os felly:

a) telerau, strwythur a gweithdrefnau gweithredol y drefn dirprwyo,
b) amlder unrhyw bwyllgor neu gyfarfod is-bwyllgor,
c) p'un a yw pwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath yn cynnwys cynrychiolwyr o gyflogwyr neu aelodau'r Cynllun, ac os felly, p'un a oes gan y cynrychiolwyr hynny hawliau pleidleisio
d) i ba raddau y mae dirprwyo, neu ddiffyg dirprwyo, yn cydymffurfio â'r canllawiau a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac, i'r graddau nad yw'n cydymffurfio, y rhesymau dros beidio â chydymffurfio, a
e) manylion y telerau, strwythur a'r gweithdrefnau gweithredol yn ymwneud â'r bwrdd pensiwn lleol.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Gweinyddu ymgynghori â'r unigolion hynny y mae'n eu hystyried yn briodol wrth baratoi'r datganiad polisi a chydymffurfio.

Y ddogfen hon yw'r Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfio ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd a baratowyd i fodloni gofyniad Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r datganiad cydymffurfio sydd ei angen erbyn pwynt (d) wedi'i gynnwys fel Atodiad A.

# Nodau ac Amcanion

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod pwysigrwydd ei rôl fel Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd ar ran ei fudd-ddeiliaid sy'n cynnwys:

- tua 50,000 o aelodau presennol a blaenorol y Gronfa, a'u dibynyddion
- tua 54 o gyflogwyr yn ardaloedd Cynghorau Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam
- y trethdalwyr lleol yn yr ardaloedd hynny

Datganiad Cenhadaeth ein Cronfa yw:

- Byddwn yn cael ein hadnabod fel sefydliad blaengar, ymatebol, rhagweithiol a phroffesiynol sy'n darparu gwasanaeth ardderchog sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid, sydd ag enw da ac sy'n gredadwy, i'n holl gwsmeriaid.
- Byddwn wedi gwreiddio diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth risg a llywodraethu ariannol, a byddwn yn darparu gwasanaethau nodedig o'r safon uchaf gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni.
- Byddwn yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion, gydag ymagwedd sy'n credu yn ein gallu i gyflawni.

Mewn perthynas â llywodraethu'r Gronfa, ein nod fydd:

- Gweithredu er budd pennaf aelodau a chyflogwyr y Gronfa
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith, i hwyluso gwneud penderfyniadau deallus, a gefnogir gan gyngor, polisïau a strategaethau priodol
- Sicrhau bod y Gronfa Bensiynau yn cael ei rheoli, a'r gwasanaethau'n cael eu darparu, gan bobl sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd priodol
- Gweithredu'n onest a bod yn atebol i'n budd-ddeiliaid am ein penderfyniadau, gan sicrhau eu bod yn gadarn a bod sail dda iddynt
- Deall a monitro risg
- Ymdrechu i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth briodol a chanllawiau statudol, a gweithredu yn ysbryd canllawiau perthnasol eraill ac arweiniad arfer orau
- Mynegi'n glir beth yw ein hamcanion a sut yr ydym yn bwriadu cyflawni'r amcanion hynny trwy gynllunio busnes, a mesur a monitro llwyddiant yn barhaus
- Sicrhau bod cyfrinachedd, uniondeb a hygyrchedd data'r Gronfa, ei systemau a'i gwasanaethau yn cael eu gwarchod a'u cynnal.

## Cefndir y Trefniadau Llywodraethu

Adolygodd Cyngor Sir y Fflint ei drefniadau Llywodraethu ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd yn 2014. Cyn y dyddiad hwn, y Pennaeth Cyllid oedd â chyfrifoldeb am Gronfa Bensiynau Clwyd ac roedd yn atebol i Banel Cronfa Bensiynau Clwyd a oedd yn cynnwys aelodau etholedig o Gyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Hefyd, roedd gan y panel aelodau heb bleidlais, gan gynnwys ymgynghorydd annibynnol a chynrychiolydd a oedd yn aelod o'r cynllun.

Canfu adolygiad annibynnol gan CIPFA yn 2010 bod llywodraethiad y Gronfa yn dda iawn, ond cydnabu nad oedd y strwythur llywodraethu hwn yn bodloni'r arfer gorau, yn arbennig argymhellwyd:

- Y dylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am reoli Cronfa Bensiynau Clwyd o'r Pennaeth Cyllid i'r Pwyllgor newydd ei sefydlu
- Y dylid cael cynrychiolaeth ehangach o fudd-ddeiliaid ar y pwyllgor newydd ei sefydlu gyda hawliau pleidleisio yn ymestyn i holl aelodau'r pwyllgor

O ganlyniad, ym mis Mai 2014, adolygwyd trefniadau llywodraethu'r Gronfa a sefydlodd y Cyngor Bwyllgor Cronfa Bensiynau ffurfiol, wedi'i gefnogi gan Banel Ymgynghorol ar

Bensiynau. Y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fel y Swyddog Adran 151 sydd â chyfrifoldeb statudol dros faterion ariannol priodol Cyngor Sir y Fflint sy'n cynnwys materion Cronfa Bensiynau Clwyd. Hefyd, mae'r Cyngor wedi dirprwyo cyfrifoldebau penodol ar gyfer Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

Cafodd y strwythur llywodraethu hwn ei ehangu ar ddechrau 2015 yn sgil gofyniad Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 i gyflwyno bwrdd pensiwn lleol i gynorthwyo â chydymffurfiad â materion Cronfa Bensiynau. Fe'i hehangwyd ymhellach ym Mawrth 2017 er mwyn sefydlu Pwyllgor Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r Gweithgor Swyddogion ac i hwyluso'r gwaith o gyfuno asedau cronfeydd pensiwn yr wyth Cronfa Bensiynau Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Dangosir strwythur llywodraethu'r Cyngor ar gyfer materion Cronfa Bensiynau isod:




## Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd

Prif nod Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yw cyflawni swyddogaethau Cyngor Sir y Fflint fel Rheolwr Cynllun ac Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd yn unol â deddfwriaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Nid yw aelodau Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd yn ymddiriedolwyr y Gronfa, ond mae ganddynt ddyletswydd gofal sy'n cyfateb i gyfrifoldebau ymddiriedolwyr yn y sector preifat a gellir eu disgrifio'n fwy cywir fel 'Lles Ymddiriedolwyr'. Mae rheolaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yn anwleidyddol.

Gweler rolau penodol y Pwyllgor fel yr amlinellir yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn Atodiad B. Gall y Pwyllgor hefyd ddirprwyo ystod gyfyngedig o’i swyddogaethau i un neu fwy o swyddogion Cyngor Sir y Fflint.

Ni chaiff unrhyw faterion yn ymwneud â chyfrifoldebau Cyngor Sir y Fflint fel cyflogwr sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Clwyd eu dirprwyo i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.

Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn cyfarfod o leiaf bob chwarter ac mae’n cynnwys naw aelod fel a ganlyn:

- Pump o Gynghorwyr Cyngor Sir y Fflint fel y'u pennir gan y Cyngor.
- Pedwar aelod cyfetholedig sy'n cynnwys:
    - Un Cynghorydd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, a bennir gan y Cyngor.
    - Un Cynghorydd o Gyngor Sir Ddinbych, a bennir gan y Cyngor.
    - Un cynrychiolydd o gyflogwyr eraill y Cynllun (nid cyrff derbyn) Cronfa Bensiynau Clwyd fel y diffinnir gan Atodlen 2 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd, a benodir yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd mewn ymgynghoriad ag aelodau o Banel Ymgynghorol y Gronfa Bensiynau.
    - Un Cynrychiolydd aelodau cynllun Cronfa Bensiynau Clwyd, a benodir yn unol â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn caniatáu dirprwyon enwebedig ar gyfer aelodau Cyngor Sir y Fflint yn unig, ar yr amod eu bod yn bodloni polisi gwybodaeth a sgiliau’r Gronfa Bensiynau. Mae Cynghorwyr Cyngor Sir y Fflint yn cael eu penodi’n flynyddol. Fel arall, mae cylch gorchwyl ar gyfer yr aelodau’n amrywio o bedair i chwe blynedd.  Efallai caiff aelodau eu hailbenodi am dymhorau pellach.

Mae gan bob aelod hawl cyfartal i bleidleisio.

## Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd

Dan Gyfansoddiad y Cyngor, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd sy’n gyfrifol am y materion canlynol:

- Mae rheolaeth ddyddiol materion Cronfa Bensiynau Clwyd yn cynnwys sicrhau trefniadau ar gyfer buddsoddiad asedau a gweinyddu cyfraniadau a budd-daliadau, ac eithrio materion sydd wedi’u dirprwyo i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.
- Sefydlu a Chadeirio Panel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd, sy’n cynnwys swyddogion y Cyngor ac ymgynghorwyr i Gronfa Bensiynau Clwyd, i ddarparu cyngor a chynnig argymhellion i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, ac i gynnal materion fel y’u dirprwyir o bryd i’w gilydd gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.

## Swyddog Adran 151: Rheolwr Cyllid Corfforaethol

Dan fodel gweithredu cyfredol y Cyngor, mae rôl y Prif Swyddog Cyllid (A151) wedi’i dirprwyo i’r Rheolwr Cyllid Corfforaethol. Felly, mae gan y Rheolwr Cyllid Corfforaethol

gyfrifoldeb statudol dros weinyddu cyllidol cywir Cronfa Bensiynau Clwyd, yn ychwanegol at Gyngor Sir y Fflint.

## Panel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd

Sefydlwyd Panel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd i ddarparu cyngor a chynnig argymhellion i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, ac ymgymryd ag unrhyw faterion a ddirprwyir iddo o bryd i'w gilydd gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.

Mae ei aelodaeth yn cynnwys:

- Y Rheolwr Corfforaethol: Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint
- Prif Swyddog Cyllid Cyngor Sir y Fflint
- Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd
- Ymgynghorydd Buddsoddi
- Actiwari'r Gronfa
- Ymgynghorydd Annibynnol

## Pwyllgor Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru

Er mwyn bodloni gofynion y Llywodraeth i leihau costau sy'n ymwneud â buddsoddi, mae'r wyth awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Sir y Fflint, wedi ymrwymo i Gytundeb Rhwng Awdurdodau i gyfuno asedau cronfa bensiynau, bydd rhan allweddol o hyn yn cael ei wneud trwy benodi Gweithredwr Cynllun Contract Awdurdodedig i wneud buddsoddiadau ar ran yr awdurdodau gweinyddu. Cafodd hyn ei gymeradwyo yng nghyfarfod Cyngor Sir y Fflint ar 1 Mawrth 2017. Mae'r adroddiad a'r atodiadau i'w gweld yma.

Fel rhan o'r trefniant cydgyfrannu, mae'r awdurdodau wedi sefydlu Pwyllgor Cydlywodraethu gyda nifer o gyfrifoldebau, gan gynnwys y canlynol:

- Monitro perfformiad y Gweithredwr
- Gwneud penderfyniadau ar is-gronfeydd dosbarth asedau i'w gwneud yn hygyrch gan y Gweithredwr i weithredu strategaethau buddsoddi'r wyth Cronfa
- Darparu atebolrwydd i'r Cronfeydd sy'n cymryd rhan ar reolaeth y Cydgyfraniad
- Adrodd ar y Cydgyfraniad i Lywodraeth y DU a budd-ddeiliaid eraill
- Cael trosolwg o'r Gweithgor Swyddogion

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi penderfynu mai cynrychiolydd Cronfa Bensiynau Clwyd ar y Pwyllgor Cydlywodraethu fydd Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau. Yn eu habsenoldeb, bydd yr Is-gadeirydd yn gweithredu fel Dirprwy.

Bydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn pennu pa swyddogion o Gronfa Bensiynau Clwyd sy'n eistedd ar y Gweithgor Swyddogion.

Mae'r Pwyllgor Cydlywodraethu yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn o leiaf, ac mae'n cynnwys un aelod etholedig o bob Awdurdod gweinyddu sy'n gyfrifol am gynnal Cronfa Bensiynau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Y rhain yw:

- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae gan bob aelod sy'n bresennol yn y Pwyllgor Cydlywodraethu hawl i bleidleisio ac mae gan bob aelod yr un hawliau pleidleisio.

Yn ogystal, mae yna gynrychiolydd cyfetholedig heb bleidlais o aelodau'r cynllun ar y Pwyllgor Cydlywodraethu.

Mae Cyngor Sir Gâr yn gweithredu fel Cyngor Cynnal mewn perthynas â Chytundeb Rhwng Awdurdod Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r rôl hon yn cynnwys y canlynol, mewn perthynas â rheoli trefniadau'r cydgyfrannu:

- Gweithredu fel y prif bwynt cyswllt
- Darparu adnoddau a chyfleusterau gweinyddol, a gwasanaethau llywodraethu a gweinyddu
- Ymrwymo i gontract ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau
- Ymgysylltu gyda'r Gweithredwr

## Gweithgor Swyddogion Partneriaeth Pensiwn Cymru

Sefydlwyd Gweithgor Swyddogion Partneriaeth Pensiwn Cymru fel rhan o Gytundeb Partneriaeth Pensiwn Rhwng Awdurdodau Cymru i gefnogi a chynghori'r Pwyllgor Cydlywodraethu ar faterion rhesymol ar gais y Pwyllgor Cydlywodraethu neu unrhyw faterion yn ymwneud â'r Cytundeb cronni a godir gan unrhyw un o Swyddogion Adran 151 neu Swyddogion Monitro'r awdurdodau.

Mae pob awdurdod yn dirprwyo swyddogion i'r Gweithgorau Swyddogion. Mewn perthynas â Chronfa Bensiynau Clwyd, mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn pennu pa un o'i swyddogion sy'n eistedd ar y Gweithgor Swyddogion. Mae hawl gan Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro pob awdurdod i fod yn bresennol yn y Gweithgor Swyddogion.

Mae'r rhestr lawn o gyfrifoldebau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Cydlywodraethu, Gweithgor Swyddogion a'r Cyngor Cynnal wedi'i chynnwys yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

# Bwrdd Pensiwn

Mae’n ofynnol i bob Awdurdod Gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sefydlu Bwrdd Pensiwn lleol i’w cynorthwyo nhw â:

- sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun, a'r gofynion a osodir mewn perthynas â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Rheoleiddiwr Pensiynau
- sicrhau y caiff y Gronfa Bensiynau ei llywodraethu a’i gweinyddu’n effeithiol ac effeithlon

Nid yw Byrddau Pensiwn o’r fath yn bwyllgorau awdurdod lleol; nid yw Cyfansoddiad Cyngor Sir y Fflint felly fel y cyfryw yn berthnasol i'r Bwrdd Pensiwn oni bai y cyfeirir yn benodol ato ym Mhrotocol y Bwrdd. Sefydlwyd Bwrdd Pensiwn Clwyd gan Gyngor Sir y Fflint ym mis Mawrth 2015, a gellir gweld Protocol llawn y Bwrdd yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Crynhoir y pwyntiau allweddol isod.

Mae’r Bwrdd Pensiwn yn darparu trosolwg o'r materion a amlinellir uchod.  Fodd bynnag, nid yw’r Bwrdd Pensiwn yn gorff sy'n gwneud penderfyniadau o ran rheoli'r Gronfa Bensiynau, ac mae pwerau a chyfrifoldebau rheoli’r Gronfa Bensiynau sydd wedi eu dirprwyo gan y Cyngor i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau neu fel arall yn parhau i fod yn bwerau a chyfrifoldebau i’r Pwyllgor hwnnw yn unig, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i osod a darparu strategaethau’r Gronfa, dyrannu asedau'r Gronfa a phenodi contractwyr, ymgynghorwyr a rheolwyr y gronfa.  Mae’r Bwrdd Pensiwn yn gweithredu’n annibynnol o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.

Mae’r Bwrdd Pensiwn yn cynnwys 5 aelod fel a ganlyn:

- Dau Gynrychiolydd Cyflogwr
- Dau Gynrychiolydd Aelod y Cynllun, un a enwebir gan y cyd-undebau llafur ac un sy’n aelod o Gronfa Bensiynau Clwyd
- Un Aelod Annibynnol sy'n gweithredu fel cadeirydd y Bwrdd Pensiwn

Mae gan bob aelod o'r Bwrdd Pensiwn, heb gynnwys yr Aelod Annibynnol, hawliau pleidleisio unigol, ond y disgwyl yw y bydd y Bwrdd Pensiwn, cyn belled ag y bo modd, yn dod i gonsensws.

Ystyrir bod cyfarfod y Bwrdd Pensiwn yn gworwm pan fydd o leiaf tri o'r pum aelod yn bresennol, gan gynnwys o leiaf un Cynrychiolydd y Cyflogwr, un Cynrychiolydd Aelod y Cynllun a'r Aelod Annibynnol.

Mae'n ofynnol i Aelodau'r Bwrdd Pensiwn ddatgan, ar benodiad ac ym mhob cyfarfod, unrhyw fuddiannau a allai arwain at wrthdaro buddiannau mewn perthynas â materion y Gronfa Bensiynau neu eitemau ar y rhaglen.

Mae'r Bwrdd Pensiwn yn cyfarfod o leiaf ddwywaith a dim mwy na phedair gwaith ym mhob blwyddyn galendr yn ystod busnes arferol. Efallai y bydd cyfarfodydd ychwanegol yn cael eu

trefnu, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Ysgrifennydd y Bwrdd (Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), i hwyluso’r gwaith.

## Hyfforddiant

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod bod rheolaeth, gweinyddiaeth a gwneud penderfyniadau’n effeithiol yn cael ei gyflawni pan mae gan y sawl sy'n gysylltiedig y wybodaeth a’r sgiliau angenrheidiol yn unig. Felly, mewn perthynas â rheolaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, rydym yn mabwysiadu argymhellion allweddol Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar Wybodaeth a Sgiliau Cyllid Pensiynau y Sector Cyhoeddus.

Mae hyn yn golygu y byddwn yn sicrhau bod gennym amcanion, polisïau ac ymarfer, strategaethau a threfniadau adrodd cynhwysfawr ar gyfer caffael a chynnal Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol perthnasol yn effeithiol, yn ogystal â gwybodaeth a sgiliau ar gyfer y sawl sy’n gyfrifol am reoli, gweinyddu a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â’r Gronfa. Bydd y polisïau a’r ymarferion hyn yn cael eu llywio wrth gyfeirio at y fframwaith gwybodaeth a sgiliau fel y’i diffinnir o fewn Fframweithiau Gwybodaeth a Sgiliau Cyllid Pensiynau CIPFA.

Mae polisi Gwybodaeth a Sgiliau’r Gronfa ar gael ar wefan y Gronfa: https://cronfabensiynauclwyd.org.uk

Byddwn yn adrodd yn flynyddol pa mor dda y cydymffurfir â’r Polisi drwy gydol y flwyddyn ariannol fel rhan o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gronfa.

Mae’r Cyngor wedi dirprwyo’r cyfrifoldeb am weithredu gofynion Cod Ymarfer CIPFA i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a fydd yn gweithredu yn unol â Pholisi’r Gronfa.

Yn ychwanegol at hynny, yn unol â Chytundeb Rhwng Awdurdodau Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae gofyn i’r Pwyllgor Cydlywodraethu baratoi, cynnal a glynu at Bolisi Hyfforddiant. Mae gofyn i bob aelod ymgymryd â'r hyfforddiant a ddarperir.

## Gwrthdaro Buddiannau

Mae gwrthdaro buddiannau wedi bodoli erioed ar gyfer y rhai sydd â chyfrifoldebau awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, yn ogystal ag ar gyfer ymgynghorwyr cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn syml, mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith y bydd gan nifer o’r rhai sy’n rheoli neu gynghori cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, nifer o rolau a chyfrifoldebau eraill, er enghraifft fel aelod o’r cynllun, fel aelod etholedig cyflogwr sy’n cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu fel ymgynghorydd ar gyfer mwy nag un awdurdod gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn ogystal â hynny, efallai y bydd gan un o’r unigolion hyn gysylltiadau personol, busnes neu eraill sy’n gwrthdaro, neu’n cael eu hystyried fel gwrthdaro, gyda’u rôl o reoli neu gynghori cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Derbynnir yn gyffredinol bod gan awdurdodau gweinyddu ddyletswyddau cyfraith gyhoeddus ac ymddiriedol i weithredu er budd pennaf buddiolwyr a chyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn atal y rhai sy'n ymwneud â rheoli'r gronfa rhag cael rolau neu gyfrifoldebau eraill a allai arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl. Yn unol â hynny, mae'n arfer da i nodi mewn polisi sut y rheolir unrhyw wrthdaro o'r fath neu wrthdaro posibl.

Mae Polisi Gwrthdaro Buddiannau Cronfa Bensiynau Clwyd yn nodi sut y caiff gwrthdaro buddiannau gwirioneddol a phosib eu nodi a'u rheoli gan y rhai sy'n gysylltiedig â rheoli a llywodraethu'r Gronfa, yn uniongyrchol neu mewn modd cynghorol. Mae'r Polisi wedi'i sefydlu i arwain aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, aelodau'r Bwrdd Pensiwn, swyddogion ac ymgynghorwyr. Ei nod yw sicrhau nad yw'r unigolion hynny'n gweithredu'n amhriodol neu'n rhoi'r argraff eu bod wedi gweithredu'n amhriodol. Mae'n gymorth i lywodraethu da, gan annog tryloywder a lleihau'r risg o unrhyw fater yn niweidio'r broses wneud penderfyniadau neu ddulliau rheoli'r Gronfa fel arall.

Mae Polisi'r Gronfa ar gael ar ein gwefan:
https://cronfabensiynauclwyd.org.uk

Yn ychwanegol at hynny, yn unol â Chytundeb Rhwng Awdurdodau Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae gofyn i'r Pwyllgor Cydlywodraethu baratoi, cynnal a glynu at Bolisi Gwrthdaro Buddiannau.

## Rheoli Risg

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod fod rheoli risg yn effeithiol yn elfen hanfodol o lywodraethu da yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Drwy adnabod a rheoli risgiau drwy strategaeth rheoli risg a pholisi effeithiol, gallwn:

- ddangos yr arfer orau o ran llywodraethu
- gwella rheolaeth ariannol
- lleihau'r risg ac effaith amodau niweidiol
- adnabod a gwneud y mwyaf o gyfleoedd a allai godi
- lleihau bygythiadau

Mae Polisi Risg Cronfa Bensiynau Clwyd yn rhoi manylion ynghylch y strategaeth rheoli risg ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd, gan gynnwys:

- yr athroniaeth risg ar gyfer rheoli'r Gronfa, ac yn benodol agweddau tuag at, a'r awch am risg
- sut y caiff rheoli risg ei weithredu
- cyfrifoldebau o ran rheoli risg
- y gweithdrefnau a fabwysiedir yn y broses rheoli risg

Rydym yn cydnabod nad yw'n bosib dileu'r holl risgiau, ac nid yw hynny yn rhywbeth y byddem yn ei ddymuno. Mae risgiau Cronfa Bensiynau yn aml yn cael eu gyrru gan ffactorau allanol, sydd allan o'n rheolaeth yn gyfan gwbl, neu'n rhannol. Mae'r rhain yn cynnwys

newidiadau cenedlaethol i'r Cynllun ac amodau'r farchnad ariannol. Mae derbyn a rheoli risg yn weithredol felly yn rhan allweddol o'n strategaeth rheoli risg ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd. Y penderfynydd allweddol wrth ddewis y cam gweithredu i'w gymryd o ran unrhyw risg fydd ei effaith posib ar amcanion y Gronfa yng ngoleuni ein hawch am risg, yn arbennig o ran materion buddsoddi. Yr un mor bwysig yw cynnal cydbwysedd rhwng cost y camau rheoli risg ac effaith posib y risg yn digwydd.

Rydym yn cydnabod hefyd nad yw rheoli risg yn derfyn yn ei hun. Fodd bynnag mae'n dechneg rheoli gadarn sy'n rhan hanfodol o sut rydym yn rheoli'r Gronfa. Mae manteision dull rheoli risg cadarn yn cynnwys gwneud penderfyniadau gwell, perfformiad a darpariaeth gwasanaeth gwell, defnydd mwy effeithiol o adnoddau a gwarchod enw da.

Mae Polisi'r Gronfa ar gael ar ein gwefan:
https://cronfabensiynauclwyd.org.uk

Yn ychwanegol at hynny, yn unol â Chytundeb Rhwng Awdurdodau Partneriaeth Pensiwn Cymru, mae gofyn i'r Pwyllgor Cydlywodraethu baratoi, cynnal a glynu at Bolisi Risg.

## Safonau'r Gymraeg

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal, wrth ymgymryd â'i fusnes cyhoeddus. Bydd y safonau hyn yn gymwys felly wrth lywodraethu trefniadau ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan y Cyngor neu drwy gysylltu â Phennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd.

## Monitro Llywodraethu Cronfa Bensiynau Clwyd

Bydd amcanion llywodraethu'r Gronfa yn cael eu monitro fel a ganlyn:

| Amcan | Trefniadau Monitro |
|---|---|
| Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith, i hwyluso gwneud penderfyniadau deallus, a gefnogir gan gyngor, polisïau a strategaethau priodol. | • Mae'r Ymgynghorydd Annibynnol yn ymgymryd ag adolygiad blynyddol o effeithlonrwydd trefniadau llywodraethu Cronfa Bensiynau Clwyd, a'r canfyddiadau sy'n cael eu hadrodd i'r Pwyllgor a'u cyhoeddi.<br>• Mae'r Bwrdd Pensiwn yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol.<br>• Yn unol â'r Rheoliadau, bydd y ddogfen hon yn cael ei ffeilio â'r ACGTCh. |

| Amcan | Trefniadau Monitro |
|---|---|
| Sicrhau bod y Gronfa Bensiynau yn cael ei rheoli a'r gwasanaethau'n cael eu darparu gan bobl sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd priodol. | • Mae Polisi Gwybodaeth a Sgiliau ar waith ynghyd â monitro ac adrodd pob hyfforddiant gan aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, aelodau'r Bwrdd Pensiwn a swyddogion allweddol yn unol â'r Polisi Gwybodaeth a Sgiliau.<br>• Mae gan y Pwyllgor Cydlywodraethu Bolisi Hyfforddiant ar waith gyda threfniadau monitro yn unol â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau. |
| Gweithredu'n onest a bod yn atebol i'n budd-ddeiliaid am ein penderfyniadau, gan sicrhau eu bod yn gadarn a bod sail dda iddynt. | • Mae Polisi Datgan Cysylltiad ar waith, ynghyd â threfniadau adrodd a monitro'r gofrestr cysylltiadau, yn unol â'r Polisi Datgan Cysylltiad.<br>• Estynnir gwahoddiad i gyflogwyr o fewn y Gronfa, ynghyd â chynrychiolwyr yr undeb, i Gydgyfarfod Ymgynghorol Blynyddol. Mae mynychwyr yn derbyn cyflwyniad ac yn cael cyfle i ofyn cwestiynau ar drefniadau llywodraethu'r Gronfa.<br>• Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn cynnwys cynrychiolwyr o aelodau'r cynllun a'r mwyafrif o gyflogwyr o fewn y Gronfa.<br>• Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn cynnwys cynrychiolwyr o aelodau'r cynllun a chyflogwyr o fewn y Gronfa.<br>• Mae'r Bwrdd Pensiwn yn paratoi ac y cyhoeddi adroddiad blynyddol, a all hefyd gynnwys sylwadau ar wneud penderfyniadau.<br>• Mae'r Pwyllgor Cydlywodraethu yn paratoi cynllun busnes blynyddol sy'n cael ei gyflwyno gerbron Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd i'w gymeradwyo, yn unol â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau. |
| Deall a monitro risg. | • Mae Polisi Risg a chofrestr ar waith, ac mae trefniadau monitro ac adrodd risgiau yn cael eu cynnal yn unol â'r Polisi Risg.<br>• Ystyriaeth barhaus o risgiau allweddol yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiwn. |

| Amcan | Trefniadau Monitro |
|---|---|
| Ymdrechu i sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth briodol a chanllawiau statudol, a gweithredu yn ysbryd canllawiau perthnasol eraill ac arweiniad arfer orau. | • Ystyrir trefniadau Llywodraethu'r Gronfa gan Archwilwyr Allanol a Mewnol. Adroddir pob Adroddiad Archwilio Allanol a Mewnol i'r Pwyllgor.<br>• Mae gan y Gronfa Ymgynghorydd Llywodraethu Annibynnol, ac mae eu hadroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at gydymffurfio â gofynion allweddol.<br>• Mae'r Gronfa yn cynnal gwiriad cydymffurfio, yn flynyddol o leiaf, yn erbyn Cod Ymarfer y Rheoleiddiwr Pensiynau.<br>• Mae'r Gronfa yn cynnal cofnod o bob toriad cyfraith yn unol â gweithdrefn torri'r gyfraith y Gronfa sy'n cael ei adrodd a'i fonitro fel yr amlinellir yn y weithdrefn honno.<br>• Mae'r Bwrdd Pensiwn yn paratoi ac y cyhoeddi adroddiad blynyddol, sydd efallai'n cynnwys sylwadau ar faterion cydymffurfio.<br>• Mae gan y Pwyllgor Cydlywodraethu Bolisi Torri'r Gyfraith a Gwallau ar waith gyda threfniadau monitro yn unol â'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau. |
| Mynegi'n glir beth yw ein hamcanion a sut yr ydym yn bwriadu cyflawni'r amcanion hynny trwy gynllunio busnes, a mesur a monitro llwyddiant yn barhaus. | • Mae pob strategaeth a pholisi yn cynnwys cyfeiriad ar sut y caiff amcanion eu monitro.<br>• Monitro parhaus yn erbyn amcanion allweddol yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau.<br>• Monitro targedau'r cynllun busnes yn barhaus yng nghyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau.<br>• Mae diweddariadau bob chwarter a blynyddol yn erbyn cynllun busnes ac amcanion y Pwyllgor Cydlywodraethu wedi'u darparu yn unol â'r Cytundeb rhwng Awdurdodau. |

| Amcan | Trefniadau Monitro |
|---|---|
| Sicrhau bod cyfrinachedd, uniondeb a hygyrchedd data'r Gronfa, ei systemau a'i gwasanaethau yn cael eu gwarchod a'u cynnal. | • Mae pob toriad diogelwch gwybodaeth sy'n ymwneud â data yn cael ei ddosbarthu'n anniogel gan y Gronfa'n cael eu cofnodi a'u hadolygu.<br>• Mae pob digwyddiad arall sy'n effeithio ar gyfrinachedd, uniondeb a hygyrchedd data, systemau neu wasanaethau yn cael eu cofnodi a'u hadolygu.<br>• Mae gan y Gronfa gynllun ymateb i ddigwyddiad seibr ar waith.<br>• Mae gan y Gronfa gynllun parhad busnes ac amserlen profi ar waith (gan gynnwys profi digwyddiad seibr) ac sy'n cael ei ddilyn.<br>• Mae pob aelod o staff y Gronfa wedi dilyn hyfforddiant Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn unol â rhaglen hyfforddiant Cyngor Sir y Fflint. |

# Risgiau Allweddol

Dyma'r prif risgiau llywodraethol y bydd aelodau o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau, gyda chymorth Panel Ymgynghorol Cronfa Bensiynau Clwyd, yn eu monitro ar sail barhaus.

- Newidiadau posibl i aelodaeth Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, aelodaeth y Bwrdd Pensiwn, y Pwyllgor Cydlywodraethu a/neu swyddogion allweddol, lefel gwybodaeth wael, ymgysylltiad neu arolygiaeth wael i effaith ansawdd y penderfyniadau a wneir.
- Os na chaiff gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu posib eu rheoli'n briodol, gallent ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau, gan olygu nad yw penderfyniadau er budd pennaf aelodau a chyflogwyr ein cronfa, ac nad yw ein dyletswyddau ymddiriedol yn cael eu bodloni.
- Os nad oes polisïau ar waith neu nad ydynt yn cael eu monitro'n rheolaidd, yna efallai na fydd amcanion y Gronfa'n glir neu'n briodol.
- Byddai methiant i drefniadau rheoli risg yn arwain at beidio adnabod risgiau neu beidio eu hystyried yn briodol, gan arwain at golled neu effaith niweidiol arall i'r Gronfa neu ei fudd-ddeiliaid.
- Y posibilrwydd o ddylanwad a newidiadau allanol (megis newidiadau i'r cynllun, ad-drefnu cenedlaethol, seiberdroseddu a chyfuno asedau) i arwain at amcanion a chyfrifoldebau cyfreithiol y Gronfa ddim yn cael eu bodloni neu eu cyfaddawdu.
- Os, am resymau megis salwch, gadael swydd, ymddeoliad neu anallu i recriwtio, diffyg niferoedd staff, yna gall hyn arwain at wasanaethau a ddarperir ddim yn bodloni amcanion cyfreithiol ac amcanion y polisi.

- Os na ddarperir yr hyfforddiant priodol i’r sawl sydd â’r gwaith o reoli’r Gronfa, neu nad ydynt yn deall eu cyfrifoldebau, yna mae risg na fyddwn yn cydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol neu’r canllawiau.

## Datganiad Cydymffurfio Arfer Orau

Mae’r datganiad isod yn cymharu trefniadau llywodraethu cyfredol Cronfa Bensiynau Clwyd gyda'r canllawiau arfer orau a ddosbarthwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, fel sy’n ofynnol dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae’r datganiad yn darparu esboniad o le nad yw'r Gronfa'n cydymffurfio'n llawn.

## Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori

Adolygwyd strwythur llywodraethu Cronfa Bensiynau Clwyd yn 2014. Ymgynghorwyd â chyflogwyr y Gronfa cyn yr adolygiad hwnnw. Mae cynrychiolwyr cyflogwyr ac aelodau’r cynllun hefyd wedi bod yn rhan o newidiadau arfaethedig i’r strwythur, gan gynnwys trefniadau ar gyfer ymrwymo i drefniant cyfuno asedau Cymru.

Cymeradwywyd y fersiwn hwn o’r Polisi Llywodraethu a’r Datganiad gan Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd ar 23 Tachwedd 2022. Bydd yn cael ei adolygu a’i ddiweddaru’n ffurfiol bob tair blynedd neu'n gynharach os yw’r trefniadau llywodraethu neu faterion eraill ynddo’n galw am ailystyriaeth.

## Rhagor o Wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglŷn ag unrhyw beth yn y Polisi Llywodraethu a’r Datganiad, neu sy’n ymwneud ag ef, cysylltwch â:

Phillip Latham, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, Cyngor Sir y Fflint

E-bost: philip.latham@siryfflint.gov.uk

Rhif ffôn: 01352 702264

Ceir rhagor o wybodaeth am y Gronfa ar ei gwefan:

https://cronfabensiynauclwyd.org.uk

Ceir rhagor o wybodaeth am Bartneriaeth Pensiwn Cymru ar eu gwefan:

https://www.partneriaethpensiwncymru.org/

# Atodiad A: Datganiad Cydymffurfio Trefniadau Llywodraethu Cronfa Bensiynau Clwyd

| Arfer Orau | Yn cydymffurfio ai peidio? | Nodyn Eglurhaol |
|---|---|---|
| **A. Strwythur** | | |
| a. Mae rheolaeth a gweinyddiaeth y buddion a rheolaeth strategol asedau'r gronfa yn amlwg yn gorwedd gyda'r prif bwyllgor a sefydlwyd gan y cyngor penodi. | **Cydymffurfio** | Mae mwyafrif o elfennau gweinyddu’r buddion a rheolaeth strategol y gronfa wedi’u dirprwyo gan y Cyngor i Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.<br><br>Mae gan Bwyllgor Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru gyfrifoldeb dros rai elfennau o reoli Partneriaeth Pensiwn Cymru. |
| b. Mae cynrychiolwyr y cyflogwyr sy’n cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cyrff sy’n caniatáu ac aelodau o’r cynllun (gan gynnwys pensiynwyr ac aelodau gohiriedig) yn aelodau o’r prif bwyllgor neu’r pwyllgor eilaidd a sefydlwyd i ategu at waith y prif bwyllgor. | **Cydymffurfio** | Mae cynrychiolwyr sy’n cynnwys y rhan fwyaf o gyflogwyr ac aelodau o’r cynllun yn Aelodau Cyfetholedig o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.<br><br>Mae’r Bwrdd Pensiwn, er nad yw'n bwyllgor eilaidd ffurfiol, hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o aelodau a chyflogwyr y cynllun.<br><br>Mae Pwyllgor Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnwys un cynrychiolydd cyfetholedig o aelodau’r pwyllgor ac mae gofyn iddynt ymgysylltu gydag aelodau’r cynllun a chynrychiolwyr y cyflogwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| c. Pan mae pwyllgor eilaidd neu banel wedi'i sefydlu, mae'r strwythur yn sicrhau cyfathrebu effeithiol ar draws y ddwy lefel. | **Amherthnasol** | Nid oes pwyllgor neu banel eilaidd ffurfiol. Serch hynny, mae'n ddefnyddiol nodi bod gan aelodau'r Bwrdd Pensiwn hawl i fynd i gyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau ac estynnir gwahoddiad iddynt gymryd rhan. Rhennir cofnodion y Bwrdd Pensiwn i aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau cyn gynted ag y byddant ar gael, ynghyd â chael eu cynnwys yn adroddiadau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau. |
| d. Pan mae pwyllgor neu banel eilaidd wedi cael ei sefydlu, mae o leiaf un sedd ar y prif bwyllgor yn cael ei dyrannu i aelod o'r pwyllgor neu banel eilaidd. | **Amherthnasol** | |
| **B. Cynrychiolaeth** | | |
| a. Bod pob budd-ddeiliad allweddol yn cael cyfle i gael eu cynrychioli o fewn y prif strwythur neu'r pwyllgor eilaidd. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>i) cyflogi awdurdodau (gan gynnwys cyflogwyr nad ydynt yn rhan o'r cynllun, e.e. cyrff sy'n caniatáu);<br>ii) aelodau'r cynllun (gan gynnwys pensiynwyr ac aelodau gohiriedig y cynllun),<br>iii) pan fo'n briodol, arsyllwyr proffesiynol annibynnol, ac<br>iv) ymgynghorwyr arbenigol (ar sail ad-hoc). | **Cydymffurfio'n rhannol** | Mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn cynnwys yr Aelodau Cyfetholedig canlynol:<br>• cynrychiolwyr cyflogwyr sy'n cwmpasu pob cyflogwr ac eithrio cyrff derbyn (gan mai cyfran fechan yn unig o rwymedigaethau'r gronfa yw cyrff derbyn).<br>• cynrychiolydd aelodau'r cynllun, sy'n cwmpasu'r holl gategorïau o aelodau'r cynllun.<br>Yn ychwanegol at hynny, mae cynghorydd llywodraethu annibynnol, actiwari'r Gronfa ac ymgynghorydd buddsoddi'n mynd i holl gyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau.<br>Mae'r Bwrdd Pensiwn, er nad yw'n bwyllgor eilaidd ffurfiol, hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o aelodau a chyflogwyr y cynllun. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae Pwyllgor Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnwys un cynrychiolydd cyfetholedig o aelodau'r pwyllgor ac mae gofyn iddynt ymgysylltu gydag aelodau'r cynllun a chynrychiolwyr y cyflogwyr. |
| b. Pan fo aelodau lleyg yn eistedd ar brif bwyllgor neu bwyllgor eilaidd, maent yn cael eu trin yn gyfartal yn nhermau mynediad i ddogfennau a chyfarfodydd, cynigir yr un hyfforddiant a chyfleoedd llawn i gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau, gyda neu heb hawliau pleidleisio. | **Cydymffurfio** | Mae aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, yn cael eu trin yn gyfartal gyda chyfle llawn i gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau a chyda mynediad anghyfyngedig i ddogfennau a hyfforddiant, a hawliau pleidleisio llawn.<br><br>Nid oes pwyllgor neu banel eilaidd ffurfiol. Serch hynny, mae'n ddefnyddiol nodi bod gan aelodau'r Bwrdd Pensiwn hawl i fynd i gyfarfodydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau ac estynnir gwahoddiad iddynt gymryd rhan. |
| **C. Dewis a rôl aelodau lleyg** | | |
| a. Bod aelodau'r pwyllgor neu'r panel yn hollol ymwybodol o'r statws, rôl a swyddogaeth y mae disgwyl iddynt berfformio yn y prif bwyllgor neu'r pwyllgor eilaidd. | **Cydymffurfio** | Fe amlygir hyn drwy hyfforddiant rheolaidd, a phan gyflwynir y Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfio i'w cymeradwyo. |
| b. Ar ddechrau unrhyw gyfarfod, estynnir gwahoddiad i aelodau'r pwyllgor ddatgan unrhyw gysylltiad cyllidol neu ariannol sy'n ymwneud â materion penodol ar y rhaglen. | **Cydymffurfio** | Nid yw'n ofyniad cyfreithiol mwyach, ond rydym yn cydnabod y gall gwrthdaro buddiannau posibl godi rhwng rolau presennol (e.e. fel cynrychiolwyr cyflogwyr neu aelodau'r cynllun) ac felly rydym yn parhau i gyflawni'r ymarfer hwn. Mae gan y Gronfa Bolisi Gwrthdaro Buddiannau sy'n amlinellu'r broses ar gyfer nodi a rheoli gwrthdaro buddiannau gwirioneddol a phosibl. |

| D. Pleidleisio | | |
|---|---|---|
| a. Mae polisi awdurdodau gweinyddu unigol ar hawliau pleidleisio yn glir ac yn dryloyw, gan gynnwys cyfiawnhad dros beidio ymestyn hawliau pleidleisio i bob corff neu grŵp sydd wedi'i gynrychioli ar brif bwyllgorau cynllun pensiwn llywodraeth leol. | **Cydymffurfio** | Mae Cyfansoddiad y Cyngor a Pholisi Llywodraethu'r Gronfa a'r Datganiad Cydymffurfio yn ei wneud yn glir bod gan aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau hawliau pleidleisio cyfartal.<br><br>Mae trefniadau pleidleisio Pwyllgor Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'u hamlinellu yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau, gydag un bleidlais fesul awdurdod. Nid oes gan y cynrychiolydd cyfetholedig o aelodau'r cynllun hawl i bleidleisio yn y Pwyllgor Cydlywodraethu. |
| **E. Hyfforddiant / amser cyfleuster / treuliau** | | |
| a. Mewn perthynas â'r ffordd mae penderfyniadau statudol a chysylltiedig yn cael eu gwneud gan yr awdurdod gweinyddu, mae polisi clir ar hyfforddiant, amser cyfleuster ac ad-daliad treuliau o ran aelodau'n ymwneud â'r broses gwneud penderfyniadau. | **Cydymffurfio** | Mae gan y Gronfa Bolisi Gwybodaeth a Sgiliau sy'n berthnasol i bob aelod Pwyllgor y Gronfa Bensiynau, aelodau'r Bwrdd Pensiwn a swyddogion. Darperir hyfforddiant drwy sawl ffordd, gan gynnwys:<br>• Sesiwn cynefino cychwynnol i Aelodau newydd Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a'r Bwrdd Pensiwn.<br>• Hyfforddiant parhaus drwy adroddiadau ysgrifenedig neu gyflwyniadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.<br>• Cynadleddau a seminarau.<br><br>Mae costau gwirioneddol a threuliau sy'n ymwneud â hyfforddiant cymeradwyedig yn cael eu talu'n uniongyrchol neu'n cael eu had-dalu gan Gronfa Bensiynau Clwyd. Gall aelodau cyfetholedig Pwyllgor y Gronfa Bensiynau ac aelodau'r Bwrdd Pensiwn dderbyn taliadau am fynd i gyfarfodydd (gan gynnwys digwyddiadau hyfforddiant) fel y |



Cronfa Bensiynau CLWYD Pension Fund

| | | |
|---|---|---|
| | | manylir o fewn Cynllun Tâl Aelodau Cyngor Sir y Fflint a Phrotocol y Bwrdd Pensiwn.<br><br>Mae gofyn i Bwyllgor Cydlywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru baratoi, cynnal a glynu at Bolisi Hyfforddiant. |
| b. Pan mae polisi o'r fath yn bodoli, mae'n gymwys yn gyfartal i bob aelod o'r pwyllgorau, is-bwyllgorau, paneli ymgynghorol neu unrhyw ffurf arall o fforwm eilaidd. | **Cydymffurfio** | |
| c. Bod yr awdurdod gweinyddu'n ystyried mabwysiadu cynlluniau hyfforddiant blynyddol ar gyfer aelodau'r pwyllgor ac yn cynnal cofnod o'r hyfforddiant a gynhaliwyd. | **Cydymffurfio** | Mae cofnod o hyfforddiant Aelodau unigol yn cael ei gadw. Yn ychwanegol at hynny, mae'r Gronfa wedi mabwysiadu Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau CIPFA ac mae ganddi Bolisi Gwybodaeth a Sgiliau penodol ar gyfer y Gronfa. |
| **F. Cyfarfodydd (amlder / cworwm)** | | |
| a. Bod prif bwyllgor neu bwyllgorau awdurdod gweinyddu yn cwrdd bob chwarter o leiaf. | **Cydymffurfio** | |
| b. Bod pwyllgor eilaidd neu banel yr awdurdod gweinyddu yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn o leiaf ac yn cyd-fynd â dyddiadau cyfarfodydd y prif bwyllgor. | **Amherthnasol** | |
| c. Mae'n rhaid i awdurdod gweinyddu nad ydynt yn cynnwys aelodau lleyg yn eu trefniadau llywodraethu ffurfiol, ddarparu fforwm tu allan i'r trefniadau hynny lle gellir cynrychioli diddordebau budd-ddeiliaid allweddol. | **Amherthnasol** | Er bod gennym aelodau lleyg ar ein Pwyllgor Pensiynau, mae gennym hefyd Gydgyfarfod Ymgynghorol Blynyddol ar gyfer cyrff sy'n cyflogi ac aelodau'r cynllun. Mae'r Bwrdd Pensiwn hefyd yn darparu fforwm ar gyfer budd-ddeiliaid i'w cynrychioli. |

| G. Mynediad | | |
|---|---|---|
| a. Yn amodol ar unrhyw reolau yng nghyfansoddiad y cyngor, mae gan aelodau’r prif bwyllgorau a'r pwyllgorau eilaidd fynediad cyfartal i bapurau pwyllgorau, dogfennau a chyngor sy’n dod i law i’w ystyried yng nghyfarfodydd y prif bwyllgor. | **Cydymffurfio** | Mae gan bob Aelod o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau fynediad cyfartal i bapurau. Yn ychwanegol at hynny, mae gan aelodau’r Bwrdd Pensiwn fynediad at yr un papurau.<br><br>Mae'r Pwyllgor Cydlywodraethu yn gyfarfod cyhoeddus, felly mae’r papurau i gyd (ac eithrio’r sawl sy’n eithriedig) ar gael i aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd, yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd. |
| **H. Cwmpas** | | |
| a. Bod awdurdodau gweinyddu wedi cymryd camau i ddod â materion ehangach y cynllun o fewn cwmpas eu trefniadau llywodraethu | **Cydymffurfio** | Mae cylch gwaith Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn trin holl faterion y Gronfa, gan gynnwys gweinyddu, cyfathrebu, cyllido, buddsoddiadau a llywodraethu. Mae’r Bwrdd Pensiwn yn darparu cyfleoedd pellach i ystyried y materion hyn. |

| I. Cyhoeddusrwydd | | |
|---|---|---|
| a. Mae awdurdodau gweinyddu wedi cyhoeddi manylion eu trefniadau llywodraethu fel gall budd-ddeiliaid gyda diddordeb yn y modd y mae'r cynllun yn cael ei lywodraethu, ddatgan diddordeb wrth ddymuno bod yn rhan o'r trefniadau hynny. | **Cydymffurfio** | Mae'r Gronfa yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol manwl, newyddlenni ar gyfer aelodau gweithredol a phensiynwyr, sioeau teithiol, sesiynau galw heibio a Chyfarfod Blynyddol ar gyfer<br><br>Cyflogwyr a chynrychiolwyr y budd-ddeiliaid. Yn ychwanegol at hynny, mae adroddiadau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau ar gael i'w gweld ar wefan Cyngor Sir y Fflint (heblaw am eitemau eithriedig).<br><br>Mae trefniadau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Cydlywodraethu ar gael drwy'r polisi hwn, gydag ychydig o wybodaeth wedi'i chynnwys ym mhapurau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau. Mae holl adroddiadau'r Pwyllgor Cydlywodraethu ar gael i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Gâr (heblaw am eitemau eithriedig).<br><br>Yn ychwanegol at hynny, mae'r Pwyllgor Cydlywodraethu yn cynnwys un cynrychiolydd cyfetholedig o aelodau'r pwyllgor a byddant yn ymgysylltu gydag aelodau'r cynllun a chynrychiolwyr y cyflogwyr. |

# Atodiad B: Rolau a Swyddogaethau Dirprwyedig Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd

Mae gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn y rolau a’r swyddogaethau penodol canlynol, gan ystyried cyngor gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd ac ymgynghorwyr proffesiynol y Gronfa:

a) Sicrhau bod Cronfa Bensiynau Clwyd yn cael ei rheoli ac y gwneir taliadau pensiwn yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gofynion Refeniw a Thollau Ei Fawrhydi ar gyfer cynlluniau pensiwn yn y DU, a phob darpariaeth statudol berthnasol arall.
b) Sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn ar waith.
c) Sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu gan roi sylw i ac yn ysbryd yr holl ganllawiau arfer orau statudol ac anstatudol perthnasol, mewn perthynas â rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd.
d) Pennu nodau ac amcanion, strategaethau, datganiadau cydymffurfio statudol, polisïau a gweithdrefnau y Gronfa Bensiynau, ar gyfer rheolaeth gyffredinol y Gronfa, gan gynnwys mewn perthynas â’r meysydd canlynol:
    i. Llywodraethu: cymeradwyo Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfio'r Gronfa o fewn y fframwaith a bennwyd gan Gyngor Sir y Fflint a gwneud argymhellion i Gyngor Sir y Fflint am unrhyw newidiadau i'r fframwaith hwnnw.
    ii. Strategaeth Gyllido: cymeradwyo Datganiad Strategaeth Gyllido’r Gronfa, gan gynnwys monitro a rheoli atebolrwyddau’n barhaus, sicrhau bod cynlluniau cyllido yn eu lle ar gyfer pob cyflogwr yn y Gronfa, gan oruchwylio’r prisiadau teirblwydd ac interim, a gweithio gyda’r actiwari wrth bennu’r lefel briodol o gyfraniadau cyflogwyr ar gyfer pob cyflogwr.
    iii. Strategaeth Fuddsoddi: cymeradwyo Datganiad Strategaeth Fuddsoddi’r Gronfa, gan gynnwys gosod y Polisi Buddsoddi Cyfrifol a thargedau buddsoddi a sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd â phroffil atebolrwydd penodol y Gronfa a’r awch am risg.
    iv. Strategaeth Weinyddu: cymeradwyo Strategaeth Weinyddu’r Gronfa, gan bennu sut bydd y Cyngor yn gweinyddu'r Gronfa, gan gynnwys casglu taliadau, cyfrifo a thalu budd-daliadau, casglu gwybodaeth gan, a darparu gwybodaeth i aelodau a chyflogwyr y cynllun.
    v. Strategaeth Gyfathrebu: cymeradwyo Strategaeth Gyfathrebu’r Gronfa, gan bennu dulliau o gyfathrebu gyda budd-ddeiliaid amrywiol, gan gynnwys aelodau a chyflogwyr y cynllun.
    vi. Disgresiwn: pennu sut mae disgresiynau amrywiol yr awdurdod gweinyddu yn cael eu gweithredu ar gyfer y Gronfa.
e) Monitro gweithrediad y polisïau a’r strategaethau hyn ar sail barhaus.
f) Mewn perthynas â threfniadau Cydweithio Partneriaeth Pensiwn Cymru:
    i. Ymgymryd â'r materion canlynol sy'n berthnasol i Gyngor Sir y Fflint, fel yr amlinellir yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau:

- Penodi, terfynu neu ddisodli'r Gweithredwr yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cydlywodraethu.
- Cymeradwyo gwariant ychwanegol nad oedd wedi'i gynnwys o fewn y Cynllun Busnes, sy'n mynd tu hwnt i 30% o'r gyllideb a gymeradwywyd yn y Cynllun Busnes o fewn unrhyw Flwyddyn Ariannol.
- Ffurfio, cymeradwyo neu ddiwygio strategaeth fuddsoddi pob Awdurdod Cyfansoddol at ddibenion rheolaeth 7 y Rheoliadau Buddsoddi.
- Cyflwyno awdurdod gweinyddu newydd o fewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i'r Gronfa Fuddsoddi fel awdurdod Cyfansoddol.
- Diwygio'r Cytundeb nad yw'n arwyddocaol i weithrediad y trefniadau
- Newid defnydd i natur Contract y Gweithredwr.
- Cymeradwyo'r amcanion strategol cychwynnol i ganiatáu ar gyfer paratoi'r Cynllun Busnes cyntaf (y bydd ei amcanion yn adlewyrchu'r amcanion a nodwyd wrth gaffael y Gweithredwr).
- Cymeradwyo unrhyw feini prawf gwerthuso neu sgorio ar gyfer caffael Gweithredwr newydd.
- Cymeradwyo'r Cynllun Busnes, na fydd yn cynnwys cymeradwyaeth amcanion strategol parhaus y Gronfa Fuddsoddi.
- Pennu amseriad trosglwyddo asedau sy'n cael eu cynnal gan Gronfa Bensiynau Clwyd i'r Gydweithfa Gyfun, a'r cronfeydd neu'r is-gronfeydd a weithredir gan y Gweithredwr.

Noder, bydd y Cyngor yn cynnal y pŵer i derfynu'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau neu wneud diwygiadau i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau a fydd o bosib yn arwyddocaol i weithrediad y trefniadau.

ii. Dirprwyo pwerau i swyddogion Cyngor Sir y Fflint a'r Cyngor Cynnal pan fo'r angen.
iii. Enwebu swyddogion Cyngor Sir y Fflint i'r Gweithgor Swyddogion.
iv. Monitro perfformiad Cydweithfa Gyfun Cymru a'i Weithredwr, ac argymell camau gweithredu i'r Pwyllgor Cydlywodraethu, Gweithgor y Swyddogion neu'r Cyngor Cynnal, fel y bo'n briodol.

g) Cymeradwyo adroddiad blynyddol y Gronfa, gan gynnwys datganiadau ariannol y Gronfa.
h) Dethol, penodi, diswyddo a monitro ymgynghorwyr y Gronfa, gan gynnwys actiwari, ymgynghorwyr budd-daliadau, ymgynghorwyr buddsoddi, ceidwad byd-eang, rheolwyr cyllid, cyfreithwyr, gweinyddwr y gronfa bensiynau, ac ymgynghorwyr proffesiynol annibynnol.
i) Gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â chyflogwyr yn ymuno a gadael y Gronfa. Mae hyn yn cynnwys cyflogwyr sydd â hawl i ymuno â'r Gronfa, ac unrhyw ofynion sy'n ymwneud â'u mynediad, monitro parhaus a'r sail ar gyfer gadael y Gronfa.
j) Cytuno i delerau a thaliad trosglwyddiadau swmpus i mewn ac allan o'r Gronfa.
k) Cytuno ar gynlluniau busnes y Gronfa Bensiynau a monitro cynnydd yn eu herbyn.

l) Cytuno ar Bolisi Gwybodaeth a Sgiliau'r Gronfa ar gyfer holl aelodau Pwyllgor y Gronfa Bensiynau a holl swyddogion y Gronfa, gan gynnwys pennu fframwaith gwybodaeth a sgiliau'r Gronfa, nodi gofynion hyfforddi, datblygu cynlluniau hyfforddi a monitro cydymffurfiaeth â'r polisi.
m) Cytuno ar ymatebion yr Awdurdod Gweinyddu i ymgynghoriadau ar faterion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a materion eraill lle gallant effeithio ar y Gronfa neu ar fudd-ddeiliaid.
n) Derbyn adroddiadau parhaus gan Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a Phanel Ymgynghorol Pensiynau mewn perthynas â swyddogaethau dirprwyol.

Cronfa Bensiynau
# CLWYD
Pension Fund

[cronfabensiynauclwyd.org.uk](cronfabensiynauclwyd.org.uk)

**Cronfa Bensiynau Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA**

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.